# YR AELOD CABINET DROS ADFYWIO, HAMDDEN, DIWYLLIANT A THWRISTIAETH

**DYDD** Iau, 18 Ionawr 2024

**YN BRESENNOL (yn rhithwir): Y Cynghorydd:** H.A.L. Evans (Aelod o'r Cabinet)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol (yn gorfforol):**

M. Pemberton – Cydgysylltydd y Rhaglen Wledig
H. Morgan – Rheolwr Datblygu Economaidd
R. Phillips – Rheolwr Rhanbarthol – Datblygu Economaidd
S. Rees – Cyfieithydd ar y Pryd
K. Evans – Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Bwyllgor 1 (Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd), Neuadd y Sir, Caerfyrddin ac o bell - 10.00 - 10.06 yb

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## 2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 13 RHAGFYR 2023

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2023 yn gofnod cywir.**

## 3. CYNLLUN ANGOR GWLEDIG

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad ar y bwriad i sefydlu dwy gronfa newydd fel rhan o'r Cynllun Angor Gwledig a ariennir drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelod Cabinet y byddai Cronfa Ddigwyddiadau y Deg Tref yn cynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol y trefi ac yn gwella'r canfyddiad o ddigwyddiadau lleol. Petaent yn llwyddiannus, byddai'r ymgeiswyr yn cael hyfforddiant ar Becyn Cymorth Digwyddiadau Sir Gaerfyrddin i roi cymorth iddynt â materion fel cynllunio digwyddiadau, trwyddedu, marchnata a hyrwyddo.

Nodwyd y byddai gan y Gronfa Economi Gylchol gyllid sbarduno o hyd at uchafswm o £5k i gefnogi cymunedau i ddatblygu gweithgareddau economi gylchol gan gynnwys cyfleusterau atgyweirio ac ailddefnyddio yng nghanol trefi.

**PENDERFYNWYD:**
**3.1 cymeradwyo sefydlu Cronfa Ddigwyddiadau y Deg Tref, fel y nodir yn yr adroddiad; a**
**3.2 bod y Gronfa Economi Gylchol, fel y nodir yn yr adroddiad, yn cael ei chymeradwyo.**

4. Y RHAGLEN DEG TREF (CRONFA REFENIW)

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais canlynol am gymorth o Gronfa Refeniw y 10 Tref yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| Ymgeisydd | Prosiect | Gwobr |
|---|---|---|
| Menter Cwm Gwendraeth Elli | Swyddog Ieuenctid a Chymunedol Cross Hands | £20,000.00 |

________________________________ ____________________

**AELOD O'R CABINET** **DYDDIAD**